**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

**National Assembly for Wales**
Health, Social Care and Sport Committee

26 Hydref 2016

Annwyl gyfaill

**Bil mewn perthynas ag iechyd y cyhoedd**

Yn natganiad y Prif Weinidog ar Raglen Ddeddfwriaethol y Llywodraeth ar 28 Gorffennaf 2016, nododd ei fwriad i ailgyflwyno Bil iechyd y cyhoedd.

Yn amodol ar gyflwyno'r Bil yn ôl y bwriad, ac yna gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i'w ystyried, byddwn yn cyhoeddi galwad am dystiolaeth ar egwyddorion cyffredinol y Bil. Cymeraf y cyfle hwn i'ch hysbysu ymlaen llaw o'n bwriad, oherwydd mae'n debygol y byddwn yn cyhoeddi galwad am dystiolaeth ar egwyddorion cyffredinol y Bil hwn cyn toriad y Nadolig.

Bydd manylion y Bil yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Pwyllgor unwaith iddo gael ei gyflwyno.

Gellir gweld rhagor o wybodaeth am daith Biliau drwy'r Cynulliad yma: http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-legislation-guidance.htm

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Seneddlechyd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/Seneddlechyd
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddHealth@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Gobeithio bod yr hysbysiad hwn o gymorth. Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso ichi gysylltu â mi drwy flwch post y Pwyllgor:
Seneddlechyd@cynulliad.cymru

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech anfon copi o'r llythyr hwn ymlaen at unrhyw unigolyn neu sefydliad a hoffai gyfrannu at yr ymchwiliad. Bydd copi o'r llythyr hwn hefyd ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Yn gywir

Dr Dai Lloyd AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**